

MANIFFESTO MANIFESTO 50



YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

Sefydlwyd Yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynu'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru. Cestglir cofysgrifau a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, mudiadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a charfanau pwyso; taflenni, pamffledi ac effemera printiedig eraill; posterï a ffotograffau; gwefannau a thapiau o raglenni radio a theledu. Ni chyfyngir ei gweithgareddau i un adran o fewn y Llyfrgell.

Yn unol â Pholisi Datblygu Casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae'r Archif Wleidyddol Gymreig yn casglu papurau personol gwleidyddion sydd wedi chwarae rhan bwysig ym mywyd y genedl ac unigolion sydd â phroffil uchel oherwydd gwaith ymgyrchu ar faterion cenedlaethol neu ryngwladol.

Rydym yn casglu:

- papurau Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, Aelodau Senedd Ewrop ac Arglwyddi os ydynt, er enghraifft wedi gwasanaethu fel Ysgrifennydd Gwladol, arweinydd plaid wleidyddol, gweinidog, cadeirydd pwyllgor blaenllaw. Nid ydym fel arfer yn casglu papurau aelodau etholedig eraill na phapurau etholaethol
- archifau cenedlaethol pleidiau gwleidyddol (e.e. Archifau Plaid Lafur Cymru) ond nid ydym bellach yn casglu archifau canghennau a rhanbarthau pleidiau gwleidyddol (e.e. Cofnodion Plaid Lafur y Fenni)
- archifau carfannau pwyso cenedlaethol, a grwpiau sy'n ymgyrchu ar faterion gwleidyddol o bwys cenedlaethol
- effemera etholiadol o bob etholaeth yng Nghymru ar gyfer etholiadau a refferenda cenedlaethol gan gynnwys etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd. Nid ydym yn casglu deunydd yn ymwneud ag awdurdodau lleol.

The Welsh Political Archive was set up in 1983 to co-ordinate the collection of documentary evidence of all kinds about politics in Wales.

It collects the records and papers of political parties, politicians, quasi-political organisations, campaigns and pressure groups; leaflets, pamphlets and other printed ephemera; posters and photographs; websites and tapes of radio and television programmes. Its work is not restricted to a specific department within the Library.

In accordance with The National Library of Wales' Collection Development Policy, The Welsh Political Archive collects the personal papers of politicians who have played an important role in the life of the nation and individuals with a high profile for campaigning on national or international issues.

We collect:

- the papers of Members of Parliament, Assembly Members, Members of the European Parliament and Lords if they have for example held positions such as Secretary of State, party leader, minister, senior committee chair. We do not usually collect the papers of other elected members or constituency papers
- the national archives of political parties (e.g. Labour Party Wales Archives) but we no longer collect the regional or branch papers of political parties (e.g. Records of Abergavenny Labour Party)
- archives of national pressure groups and groups which campaign on national issues
- election ephemera from all constituencies in Wales for national elections and referenda including elections for Police and Crime Commissioners. We do not collect material related to elections to local authorities.

DERBYNIADAU NEWYDD ACQUISITIONS

**MAE'R ARCHIF WLEIDYDDOL WEDI LLWYDDO
I DDERBYN NIFER O ARCHIFAU DIDDOROL YN
YSTOD Y FLWYDDYN DDIWETHAF.**

THE POLITICAL ARCHIVE HAS BEEN SUCCESSFUL
IN ACQUIRING A NUMBER OF INTERESTING
ARCHIVES DURING THE PAST YEAR.

CASGLIAD CARTWNAU GWLEIDYDDOL MUMPH POLITICAL CARTOONS COLLECTION

Mae'r Llyfrgell wedi cytuno i brynu casgliad o gartwnau gwreiddiol ac eiconig gan y darlunydd Mal Humphreys (Mumph), sy'n darlunio mwy na lai pob digwyddiad gwleidyddol pwysig yng Nghymru ers y 1990au.

Mae'r archif yn cynnwys 3,200 o gartwnau gan gynnwys y sribedi cartŵn gwleidyddol rheolaidd ar ddydd Sadwrn yn y *Western Mail* oedd yn darlunio anturiaethau William Hague, Ron Davies, Alun Michael a Rhodri Morgan, yn ogystal â chartwnau'n nodi digwyddiadau gwleidyddol ym Mhrydain a'r byd ynghyd â chyfres *Cwm Offit*, a grëwyd ar gyfer y *South Wales Echo*.


Mae'r Llyfrgell yn ceisio codi £25,000 i sicrhau archif Mumph ar gyfer y genedl (Casgliad Cartwnau Gwleidyddol Mumph Political Cartoons Collection).

The Library has agreed to purchase a collection of original and iconic cartoons by illustrator Mal Humphreys (Mumph) which illustrates almost every important political event in Wales since the 1990s.

The complete archive contains 3,200 cartoons including the regular Saturday political cartoon strips from the *Western Mail* which featured the adventures of William Hague, Ron Davies, Alun Michael and Rhodri Morgan, as well as cartoons noting British and world political events along with the *Cwm Offit* series created for the *South Wales Echo*.

The Library aims to raise £25,000 in order to secure the Mumph archive for the nation (Casgliad Cartwnau Gwleidyddol Mumph Political Cartoons Collection).





WELSH CONSERVATIVE PARTY NATIONAL ASSEMBLY GROUP ARCHIVE


Derbyniwyd Archif Grŵp y Blaid Geidwadol Gymreig yn y Cynulliad Cenedlaethol ar adnau yn y Llyfrgell yn Chwefror 2019. Mae'r archif yn cynnwys cofnodion, agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd y grŵp, deunydd yn ymwneud â datblygu polisi a manifestos ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, deunydd yn ymwneud â threfniadaeth y grŵp a'r Blaid Geidwadol yng Nghymru, a ffeiliau pwnc yn cynnwys safbwynt y blaid ar greu swydd Comisiynydd Plant Cymru a Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Hon yw'r archif gyntaf o blaid wleidyddol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru sydd ar gael i'r cyhoedd (Welsh Conservative Party National Assembly Group Archive).

The Archive of the Welsh Conservative Party Group in the National Assembly was received on deposit in the Library in February 2019. The archive includes minutes, agendas and papers for group meetings, material related to policy development and manifestos for elections to the National Assembly for Wales, material related to the organisation of the group and the Conservative Party in Wales and subject files including files on the party's position on the creation of the post of Children's Commissioner for Wales and the Government of Wales Act 2006. This is the first archive of a political group in the National Assembly for Wales to be made publically available (Welsh Conservative Party National Assembly Group Archive).

JAMES GRIFFITHS PAPERS

Rhoddwyd 2 flwch mawr o ddeunydd archifol yn ymwneud â Jim Griffiths, AS Llafur dros Llanelli, i'r Llyfrgell fel rhan o Archif Coleg Harlech. Roedd y deunydd yn cynnwys gohebiaeth, areithiau, pamffledi gwleidyddol a deunydd yn ymwneud â darllediadau gwleidyddol y blaid a'i rôl fel Ysgrifennydd Gwladol dros y Taleithiau (Ychwanegiad at James Griffiths Papers)

2 large boxes of archival material related to Jim Griffiths, Labour MP for Llanelli, was donated to the Library as part of the Coleg Harlech Archive. The material included correspondence, speeches, political pamphlets, and material related to party political broadcasts and his role as Secretary of State for the Colonies (Addition to the James Griffiths Papers).





COLEG HARLECH ARCHIVE

Rhoddwyd archif sylweddol o 'Goleg Ail Gyfle' Cymru gan Addysg Oedolion Cymru yn dilyn cau'r coleg yn 2017. Mae'r casgliad hwn yn olrhain holl hanes Coleg Harlech ac mae'n cynnwys dogfennau fel adroddiadau blynyddol, cofnodion, gohebiaeth, cofrestri, prospectysau a ffotograffau. Mae'n cynnwys cynlluniau i ddatblygu safle'r coleg a dogfennau sy'n dod â phrofiad myfyrwyr yn fyw.

Hefyd derbyniwyd rhodd ychwanegol o bapurau, gohebiaeth a ffotograffau (1936-2007) yn ymwneud â Choleg Harlech gan Joe England, a'u casglodd yn ystod ei gyfnod fel Warden (Coleg Harlech Archive).

A substantial archive of Wales' 'Second Chance College' was donated by Adult Learning Wales following the final closure of the college in 2017. This collection traces the whole history of Coleg Harlech and includes documents such as annual reports, minutes, correspondence, registers, prospectuses and photographs. It contains plans for the development of the college site and documents which bring the student experience to life.

An additional donation of papers, correspondence and photographs (1936-2007) relating to Coleg Harlech was also received from Joe England, who accumulated them during his time as Warden (Coleg Harlech Archive).

GLYN TEGAI HUGHES PAPERS


Papurau Glyn Tegai Hughes yn cynnwys dyddiaduron, papurau'n ymwneud â'i ddiddordebau gwleidyddol, ffeiliau ymchwil ac effemera'n ymwneud â Gwasg Gregynog (Glyn Tegai Hughes Papers).

Papers of Glyn Tegai Hughes comprising diaries, papers related to his political interests, research files and ephemera related to the Gregynog Press (Glyn Tegai Hughes Papers).

LEE WATERS PAPERS

Papurau (1997-2011), yn ymwneud yn bennaf ag ymgyrchoedd refferendwm datganoli Cymru 1997 a 2011, a gyrfa Ron Davies (1997-2003); dau ffeil o bapurau Gareth Hughes (1995-1998) yn ymwneud â datganoli ynghyd â ffotograffau'n ymwneud ag Etholiad Cyffredinol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr yn 1997, a'r ymgyrch 'Ie dros Gymru' (Lee Waters Papers).

Papers (1997-2011), mainly relating to the 1997 and 2011 Welsh devolution referendum campaigns, and Ron Davies's career (1997-2003); two files of Gareth Hughes papers (1995-1998) relating to devolution along with photographs relating to the General Election in Carmarthen East & Dinefwr in 1997, and the 'Yes for Wales' campaign (Lee Waters Papers).





THE IVOR T. REES PAPERS

Tua 30 blwch bach o ddeunydd ymchwil ar ymgeiswyr etholiadol yng Nghymru yn cynnwys nodiadau ymchwil, copïau o straeon newyddion, effemera ayb ar gyfer ei lyfr '*Welsh Hustings, 1885-2004*' a diweddariadau dilynol (Ychwanegiad at Ivor T Rees Political Papers).

Approx. 30 small boxes of research material on election candidates in Wales including research notes, copies of news stories, ephemera etc. for his book '*Welsh Hustings, 1885-2004*' and subsequent updates (addition to the Ivor T. Rees Political Papers).

EDNYFED HUDSON DAVIES PAPERS


Saith blwch o bapurau Ednyfed Hudson Davies, AS Conwy ac yna'n ddiweddarach Caerffili. Mae'r papurau'n cynnwys nodiadau ar gyfer sgysiau a darllediadau, ac maent yn cynnwys nodiadau'n ymwneud â Thrawsfynydd a Thryweryn. Maent yn ymwneud yn bennaf â'r cyfnod 1959-1961 (Ednyfed Hudson Davies Papers).

Seven boxes of papers of Ednyfed Hudson Davies, MP for Conway and later Caerphilly. The papers include notes for talks and broadcasts, notes relating to Trawsfynydd and Tryweryn. They mostly relate to the period 1959-1961 (Ednyfed Hudson Davies Papers).

REV. J. T. RHYS (MARGARET LLOYD GEORGE) PAPERS

Copïau o 22 o areithiau gan y Fonesig Margaret Lloyd George mewn gwahanol ddigwyddiadau yn cynnwys cyfarfodydd gwleidyddol, digwyddiadau elusennol, agor ysgolion, arddangosfeydd, ffeiriau nwyddau, dadorchuddio cofeb ryfel, a chyflwyno gwobrau. Mae chwech o'r areithiau wedi'u hysgrifennu yn llawysgrifen Margaret Lloyd George ei hun, y gweddill gan ei hysgrifennydd preifat, y Parchedig J.T. Rhys, gweinidog yr Annibynwyr ac ymgyrchydd dirwest, oedd yn gweithredu'n gymdeithasol ac yn codi arian. Mae'r areithiau gan mwyaf yn Saesneg ond gyda rhywfaint o Gymraeg. Benthycwyd y casgliad i'w gopïo trwy garedigrwydd Mr Richard Rhys O'Brien, wŷr y Parchedig J. T. Rhys (Rev.J. T. Rhys (Margaret Lloyd George) Papers).

Copies of 22 speeches by Dame Margaret Lloyd George made at various events including political meetings, charity functions, the opening of schools, exhibitions, bazaars, an unveiling of a war memorial, and the presentation of awards. Six of the speeches are in Margaret Lloyd George's own hand, the rest by her private secretary the Congregationalist minister, temperance campaigner, social activist and fund raiser, the Rev. J.T. Rhys. The speeches are mostly in English but with some in Welsh. The collection was kindly loaned for copying by Mr Richard Rhys O'Brien, grandson of the Rev. J. T. Rhys (Rev. J. T. Rhys (Margaret Lloyd George) Papers).



PETER HAIN PAPERS

2 flwch mawr o archifau'n cynnwys papurau'n ymwneud yn bennaf â De Affrica, gan gynnwys rhoi'r anrhydedd o Gydymaith OR Tambo i Peter Hain; Gogledd Iwerddon, Brexit a'r Blaid Lafur.

1 blwch mawr o archifau'n cynnwys gohebiaeth, areithiau, nodiadau ar ddeddfwriaeth ddrafft yn cynnwys Bil Ymadael yr UE a deunydd yn ymwneud â'r system gyfiawnder. Trosglwyddwyd 1 blwch o ddeunydd sain a chlyweled i Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Ychwanegiad i Peter Hain Papers).

2 large archive boxes containing papers mostly relating to South Africa, including bestowing the honour of Companion OR Tambo on Peter Hain; Northern Ireland, Brexit and the Labour Party.

1 large archive box of correspondence, speeches, notes on draft legislation including the EU Withdrawal Bill and material related to the justice system. 1 box of audio and audiovisual material has been transferred to the National Library of Wales Screen and Sound Archive (Addition to the Peter Hain Papers).



FARMERS' UNION OF WALES PAPERS

12 blwch mawr o archifau'n cynnwys deunydd am hanes Undeb Amaethwyr Cymru o 1955, yn cynnwys cofnodion, gohebiaeth a chofnodion ariannol yn ogystal â deunydd ymgyrchu, papurau'n ymwneud ag etholiadau i'r Bwrdd Marchnata Llaeth, ffotograffau a phapurau cynhadledd. Mae rhestr o aelodau gwreiddiol Undeb Amaethwyr Cymru o ddiddordeb arbennig ac arolwg o aelodau a wnaed yn 1974 sy'n cofnodi maint ffermydd, manylion pobl yn gweithio ar y tir a defnydd tir. Disgwyllir deunydd ychwanegol i'r archif yn fuan (Farmers Union of Wales Archive).

12 large archival boxes detailing the history of the Farmers' Union of Wales from 1955, including minutes, correspondence and financial records as well as campaign material, papers related to elections to the Milk Marketing Board, photographs and conference papers. Of particular interest is a list of the original members of the FUW and a survey of members undertaken in 1974 which records the size of farms, details of people working the land and land use. Further additions to the archive are expected shortly (Farmers Union of Wales Archive).

DOLEN CYMRU-LESOTHO

Rhoddwyd un blwch ar bymtheg o ddeunydd archifol Dolen Cymru-Lesotho i'r Llyfrgell gan Dr Carl Clowes. Mae'r ffeiliau'n cynnwys papurau pwyllgor, gohebiaeth, cyhoeddiadau, cysylltiadau â'r Cyngor Prydeinig, ymweliadau, a phynciau fel iechyd (Archif Dolen Cymru).

Sixteen boxes of archival material comprising the archive of Dolen Cymru-Lesotho was donated to the Library by Dr Carl Clowes. The files include committee papers, correspondence, publications, relations with the British Council, visits, and subjects such as health (Archif Dolen Cymru).

RAS MYNYDD YR EIFL HILL RACE
NANT GWRTHEYRN 2.0 P.M.
MAI 4 MAY

ADRANNAU / SECTIONS		MYNEDIAD AR Y ENTRY ON THE	
-12 G	1 M	£1.50	10+ ♀ 5 M £3.50
-12 B	1 M	£1.50	10+ ♂ 5 M £3.50
-10 G	2 M	£1.50	35+ ♀ 5 M £3.50
-10 B	2 M	£1.50	40+ ♂ 5 M £3.50

TLYSAU / TROPHIES CRYSAU TSHIRTS / OEDDOLION
(FIRST 100 CYNTRAF) (ADULTS)

LLUNIAETH / REFRESHMENTS TŷSGRIFAU / CERTS.

* PŴNSIG
IMPORTANT

DIM CEIR HEISIO'R MAES PARCIO
NO CARS BEYOND CAR PARK

MANLLEN
DETAILS: GERAINT ROBERTS, AFALLON, STRYD UCHAF, RHINLA
neu/or 0352-713158 (DYDD/DAY)

COFNODION YMDDIRIEDOLAETH NANT GWRTHEYRN

Rhoddwyd archif fawr yn ymwneud â sefydlu a gweinyddu'r Ganolfan Iaith Genedlaethol yn Nant Gwrtheyrn i'r Llyfrgell gan Dr Carl Clowes. Mae'r archif yn cynnwys deunydd o'r cyfnod 1974-2010 ac mae'n cynnwys gohebiaeth rhwng yr ymddiriedolwyr, deunydd yn ymwneud â staff, cyfreithwyr a chyflenwyr, cofnodion, cofnodion ariannol, marchnata a datblygu gwasanaethau a chyfleusterau yn y ganolfan (Cofnodion Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn).

A large archive relating to the establishment and operation of the National Language Centre at Nant Gwrtheyrn was donated to the Library by Dr Carl Clowes. The archive contains material from the period 1974-2010 and contains the trustees' correspondence, dealings with staff, solicitors and suppliers, minutes, financial records, marketing and the development of services and facilities at the centre (Cofnodion Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn).

PATRICK HANNAN PAPERS

1 blwch mawr o bapurau'n cynnwys gohebiaeth, nodiadau ymchwil, cyfweiliadau ar gyfer erthyglau a sgriptiau teledu a rhaglenni radio ynghyd â chopiau o erthyglau. Mae'n cynnwys cyfweiliadau â ffigyrau gwleidyddol blaenllaw yn cynnwys Peter Hain, Rhodri Morgan, Alun Michael, Dafydd Wigley a Ieuan Wyn Jones yn ogystal â gohebiaeth gyda'r cyfansoddwr Daniel Jones (Patrick Hannan Papers).

1 large box of papers including correspondence, research notes, interviews for articles and scripts for television and radio programmes along with copies of articles. It contains interviews with leading political figures including Peter Hain, Rhodri Morgan, Alun Michael, Dafydd Wigley and Ieuan Wyn Jones as well as correspondence with the composer Daniel Jones (Patrick Hannan Papers).

IN THE CITY OF CARDIFF.

To Patrick David Hannan, Esq.,
of 52, Penmaen Walk, Culverhouse Cross, Cardiff.

WILLIAM EDWARD JULIAN CAYO EVANS : DENNIS COSLETT
WILLIAM VERNON GRIFFITHS : VIVIAN GEORGE DAVIES
DAVID EDGAR THOMAS : KEITH GRIFFITHS
DAVID JOHN UNDERHILL : ANTHONY HARGOLD LEWIS
DAFFID GLYN ROWLANDS.

J.D.V. FISHER, Detective Superintendent

have been charged by [redacted] on behalf of The Director of Public Prosecutions, for THAT THEY:- In the County of Glamorgan and elsewhere, between the 22nd October, 1965 and the 31st December, 1968, there being an association called the Free Wales Army, the members and adherents of which were organised and trained in such manner as to arouse reasonable apprehension that they were organised and trained for the purpose of enabling them to be employed for the use or display of physical force in promoting a political object, took part in the control or management of the said Association.

And I, the undersigned Justice of the Peace, being satisfied that you are likely to be able to give material evidence therein and that you will not voluntarily attend for that purpose:

YOU ARE THEREFORE HEREBY SUMMONED to appear on Monday the 10th day of March, 1969, at 10.30 o'clock in the forenoon, before the Magistrates' Court sitting at the Law Courts, Cardiff, to give evidence therein, and to produce newspaper cuttings.

Dated the 28th day of February, 1969.

John Rutter
Justice of the Peace for the City aforesaid.

Witness Myself

DEUNYDD YCHWANEGOL A DDERBYNIWYD

- Casgliad o 16 o ffotograffau o Aneurin Bevan yn ystod ymweliad i agor y 500fed tŷ parhaol a godwyd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd gan Gyngor Gwledig Elstree, 25 Mawrth 1949 (Llyfr Ffoto 3775B).
- Cofrestr Ysgol Bryncrug, ysgol annibynnol a sefydlwyd gyda chefnogaeth gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ar ôl i ysgol y pentref ym Bryncrug gael ei chau gan yr awdurdod lleol yn 1970.
- Ychwanegiadau at Parliament for Wales Campaign Archive.
- Gohebiaeth gan yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies (Ychwanegiad at Gwilym Prys-Davies Papers).
- Portread o Elin Jones AC, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan David Griffiths.
- Tri blwch o bapurau John Eilian (John Tudor Jones), newyddiadurwr, bardd a gwleidydd Ceidwadol (John Eilian Papers).
- Llythyr gan Emyr Llewelyn Jones, dyddiedig 24 Chwefror 1963, at ddisgyblion y chweched dosbarth yn Ysgol Ardudwy oedd yn cefnogi ei weithredoedd ar adeg boddi Capel Celyn (LIGC MS 24044D).

ADDITIONAL MATERIAL RECEIVED

- A collection of 16 photographs of Aneurin Bevan during a visit to open the 500th permanent house built since the end of the Second World War by Elstree Rural Council, 25th March 1949 (Llyfr Ffoto 3775B).
- Register for Ysgol Bryncrug, an independent school established with support from Cymdeithas yr Iaith Gymraeg following the closure of the village school in Bryncrug by the local authority in 1970.
- Additions to the Parliament for Wales Campaign Archive.
- Correspondence by Lord Gwilym Prys-Davies (Addition to the Gwilym Prys-Davies Papers).
- A portrait of Elin Jones AM, Presiding Officer of the National Assembly for Wales, by David Griffiths.
- Three boxes of the papers of John Eilian (John Tudor Jones), journalist, poet and Conservative politician (John Eilian Papers).
- A letter from Emyr Llewelyn Jones, dated 24 February 1963, to sixth form pupils at Ysgol Ardudwy who supported his actions over the drowning of Capel Celyn (NLW MS 24044D).

CATALOGIO CATALOGUING

Yn ystod y flwyddyn, catalogiwyd nifer o gasgliadau a sydd bellach i'w gweld ar gatalog ar-lein y Llyfrgell.

- Lee Waters Papers
- Leighton Andrews Papers
- Archif Dolen Cymru
- Ychwanegiadau at Lord Elwyn Jones Papers
- Ychwanegiadau at Gwilym-Prys Davies Papers
- Welsh Conservative Party National Assembly Group Archive
- Patrick Hannan Papers
- Cofnodion Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn

During the year, a number of collections were catalogued and made available on the Library's online catalogue.

- Lee Waters Papers
- Leighton Andrews
- Dolen Cymru Archive
- Additions to the Lord Elwyn Jones Papers
- Additions to the Gwilym-Prys Davies Papers
- Welsh Conservative Party National Assembly Group Papers
- Patrick Hannan Papers
- Cofnodion Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn

EFFEMERA ETHOLIAD

Mae'r Casgliad Effemera Gwleidyddol Cymreig wedi cael blwyddyn brysur dros ben. Yn dilyn marwolaeth Paul Flynn ym mis Chwefror, yr AS Llafur a fu'n cynrychioli Casnewydd am gyfnod hir, galwyd isetholiad i lenwi'r sedd wag. Cynhaliwyd yr isetholiad ar 4 Ebrill ac roedd cynrychiolwyr gan pob plaid, yn ogystal â phleidiau newydd fel Change UK a'r *Democrats and Veterans Party*. Casglodd ein cefnogwyr yn yr etholaeth ddeunydd ymgyrchu amrywiol a chynhwysfawr.

Ym Mehefin cynhaliwyd etholiad yng Nghymru ynghyd â gweddill yr UE ar gyfer Senedd Ewrop. Roedd ansicrwydd a fyddai'r etholiadau'n cael eu cynnal gan fod y DU ar fin gadael yr UE cyn iddynt gael eu cynnal a hyd yn oed ar ôl i'r ymgyrch ddechrau, roedd peth ansicrwydd o hyd. Penderfynwyd fodd bynnag, hyd yn oed os na fyddai'r etholiadau'n cael eu cynnal yn y pen draw, y dylem wneud cofnod o'r ymgyrch ac unwaith eto aeth gwirfoddolwyr ym mhob rhan o Gymru ati i gasglu ar ein rhan. Tra bod Cymru'n un etholaeth ar gyfer yr Etholiadau Ewropeaidd, roedd cryn ddeunydd lleol a deunydd wedi'i dargedu yn yr ymgyrch, sydd bellach wedi'i ychwanegu at y casgliad.

Galwyd isetholiad yn etholaeth Brycheiniog a Maesfedyd ar 1af Awst yn dilyn y ddeiseb gyntaf yn gofyn i AS yng Nghymru gamu o'r neilltu. Roedd Brexit yn ddylanwad amlwg ar ymgyrch yr isetholiad gyda Phlaid Cymru a'r Blaid Werdd yn penderfynu peidio â chynnig ymgeisydd ond yn hytrach gefnogi Jane Dodds, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, mewn ymdrech i beidio â rhannu'r bleidlais dros aros yn Ewrop. Ymgeisiodd Chris Davies unwaith eto dros y Ceidwadwyr gyda'r *Brexit Party*, Llafur, UKIP a'r blaid *Monster Raving Loony Party* hefyd yn ymladd am sedd. Cafwyd isetholiad brwd a chasglwyd cryn dipyn ddeunydd ymgyrchu gan ein cefnogwyr yn yr etholaeth.

ELECTION EPHEMERA

The Welsh Political Ephemera Collection has had a unexpectedly busy year. Following the death of the long serving Labour MP for Newport West Paul Flynn in February, a by-election was called to fill the vacant seat. The by-election, held on 4th April was contested by all the main parties, as well as various newcomers such as Change UK and the Democrats and Veterans Party. Our supporters in the constituency collected a comprehensive array of campaign material.

In June Wales went to the polls along with the rest of the EU for elections to the European Parliament. We were unsure whether the elections would go ahead as the UK was due to leave the EU before they were due to be held, and even after the campaign had begun there was still some uncertainty. We decided however that even if the elections weren't eventually held, that we should make a record of the campaign and once again volunteers in all parts of Wales collected on our behalf. While Wales is one constituency for European Elections, there was a significant amount of local and targeted material in the campaign, which has now been added to the collection.

A by-election was called in Brecon and Radnorshire for 1st August following the first re-call petition for an MP in Wales. Brexit dominated the by-election campaign with Plaid Cymru and the Green Party deciding not to contest the election and to endorse Jane Dodds, the leader of the Welsh Liberal Democrats, in an effort to avoid splitting the pro-remain vote. The former MP Chris Davies stood again for the Conservatives with the Brexit Party, Labour, UKIP and the Monster Raving Loony Party also contesting the election. The by-election was hard fought with a substantial volume of campaign material collected by our supporters in the constituency.



NEWYDDION O'R ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG NEWS FROM THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

CYFARFOD PWYLLGOR 2018

Cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ddydd Gwener 2 Tachwedd 2018.

Derbyniodd y pwyllgor adroddiadau ar dderbyniion a gweithgareddau'r Archif Wleidyddol Gymreig yn ystod y flwyddyn flaenorol yn cynnwys trosglwyddo Archif Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Llyfrgell a phrynu eitemau ychwanegol i'w hychwanegu at Bapurau Teulu Frances Stevenson. Roedd y pwyllgor hefyd yn falch o glywed bod Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno mewn egwyddor i adneuo eu harchif yn y Llyfrgell.

Hefyd derbyniodd y pwyllgor ddiweddariad ar gynlluniau i greu arddangosfa ar-lein yn cynnwys deunydd wedi'i ddigido ar fywyd a gyrfa David Lloyd George.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth dau gyn aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol yn ystod y flwyddyn a fu, sef yr Athro Emeritus Ieuan Gwynedd Jones a Mr Gareth Price, yn ogystal â chyfeirio at farwolaeth yr Arglwydd Temple-Morris oedd wedi bod yn gefnogol i waith yr Archif.

Hwn oedd cyfarfod olaf y pwyllgor gyda Linda Tomos yn y gadair cyn ei hymddeoliad. Diolchodd y pwyllgor iddi am ei gwaith fel Llyfrgellydd Cenedlaethol a dymunwyd ymddeoliad hapus iddi.

2018 COMMITTEE MEETING

The Welsh Political Archive Advisory Committee meeting was held at the National Library of Wales on Friday 2nd November 2018.

The committee received a report on acquisitions and the activities of The Welsh Political Archive over the previous year including the transfer of the National Assembly for Wales Archive to the Library and the purchase of additional items to add to the Frances Stevenson Family Papers. The committee was also pleased to hear that the Welsh Conservative Party Group in the National Assembly for Wales had agreed in principle to deposit their archive at the Library.

The committee also received an update on plans to create an online exhibition including digitised material on the life and career of David Lloyd George.

The Chair noted the death of two former members of the Advisory Committee over the past year, namely Professor Emeritus Ieuan Gwynedd Jones and Mr Gareth Price, as well as noting the death of Lord Temple-Morris who had been supportive of the work of the Archive.

This was the last meeting of the committee to be chaired by Linda Tomos before her retirement. The committee thanked her for her work as National Librarian and wished her a happy retirement.



DARLITH FLYNYDDOL YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG 2018

Cyflwynwyd darlith 2018 *Camp Aneurin; y Gwasanaeth Iechyd Gwladol* i gynulleidfa lawn yn y Drwm gan y Parchedig Dr. D. Ben Rees o Lerpwl. Roedd Pwyllgor Ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig yn awyddus i ddathlu 70 mlynedd ers sefydlu'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol a chydabod rôl un o wleidyddion mwyaf adnabyddus Cymru.

Dywedodd y siaradwr fod Bevan yn ddewis dewr: doedd ganddo ddim profiad gweinidogol nac o fod ar y fainc flaen, ond roedd ei gefndir fel cadeirydd Cymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar a'i bersonoliaeth gref wedi'i wneud yn weinidog effeithiol. Cyfeiriodd yn fanwl at y gwrthwynebiad i'w gynllun gan feddygon, y Blaid Geidwadol a hyd yn oed rhai yn y Blaid Lafur a gredai y dylai llywodraeth leol reoli'r gwasanaeth a sut y llwyddodd Bevan i lywio'r mesur drwy'r Senedd.

Yna cafwyd trafodaeth fywiog ar beth fyddai barn Bevan ar y sefydliad a greodd 70 mlynedd yn ddiweddarach.

Cyhoeddwyd y ddarlith ar dudalennau'r Archif Wleidyddol Gymreig; <https://www.llyfrgell.cymru/casgliadau/dysgwch-fwy/yr-archif-wleidyddol-gymreig/darlith-flynyddol-yr-archif-wleidyddol-gymreig/>

2018 WELSH POLITICAL ARCHIVE ANNUAL LECTURE

The 2018 lecture *Camp Aneurin; y Gwasanaeth Iechyd Gwladol* (Aneurin's triumph: The National Health Service) was delivered to a full audience in the Drwm by the Revd Dr. D. Ben Rees of Liverpool. The Welsh Political Archive Advisory Committee was keen to mark the 70th anniversary of the establishment of the National Health Service and to acknowledge the role of one of Wales' most well-known politicians.

The speaker noted that Bevan was a brave choice: he had no ministerial or front bench experience, but his background as chair of the Tredegar Medical Aid Society and his strong personality made him an effective minister. He detailed the opposition to his plan from doctors, the Conservative Party and even some in the Labour Party who believed that local government should manage the service, and how Bevan skilfully steered the proposals through Parliament.

A lively discussion followed on how Bevan would have viewed his creation 70 years on.

The lecture has been published on the pages of The Welsh Political Archive; <https://www.library.wales/collections/learn-more/archives/the-welsh-political-archive/the-welsh-political-archive-annual-lecture/>



DIWRNOD RHYNGWLADOL Y MERCHED

Ddydd Mercher 6 Mawrth, lansiodd Archif Menywod Cymru ymgyrch yn y Senedd i sicrhau bod cyfraniadau merched i wleidyddiaeth yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cael eu hadlewyrchu mewn casgliadau archifol. Ymlith y siaradwyr oedd Rob Phillips o'r Llyfrgell Genedlaethol a drafododd sut y byddai'r Llyfrgell yn wynebu'r her. Mae'r dathliad arfaethedig i ddynodi 20 mlynedd ers datganoli, tynnu sylw at ferched sydd wedi bod mewn swyddi dylanwadol fel Gweinidogion, arweinwyr pleidiau a Llywydd, yn gyfle pwysig i'r Llyfrgell gyfrannu at yr ymgyrch hwn.

INTERNATIONAL WOMEN'S DAY

On Wednesday 6 March, the Women's Archive of Wales launched a campaign in the Senedd to ensure that women's contributions to politics in Wales over the 20 years since the establishment of the National Assembly for Wales is reflected in archival collections. Amongst the speakers, Rob Phillips from the National Library discussed how the Welsh Political Archive would ensure that the Library's collections would meet that challenge. The upcoming celebration of 20 years of devolution, highlighting the women who have held influential positions as Ministers, party leaders and Presiding Officers, provides an important opportunity for the Library to contribute to this campaign.

DIGWYDDIAD YN NHŶ'R ARGLWYDDI

Ar 5 Mawrth roedd y Llyfrgell yn westeion Arglwydd Aberdâr mewn digwyddiad arbennig a gynhaliwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi lle'r oedd tua 80 o aelodau o Dŷ'r Arglwyddi, Tŷ'r Cyffredin a chyfeillion â chysylltiadau Cymreig yn bresennol. Roedd hwn yn gyfle i dynnu sylw at waith y Llyfrgell, yn enwedig yr Archif Wleidyddol Gymreig, ac annog nifer o'r gwesteion i adneuo eu papurau gwleidyddol i'r Archif. Hefyd rhannwyd taflen newydd y Gronfa Gasgliadau i annog rhoddion i'r gronfa i alluogi'r Llyfrgell i brynu eitemau a fyddai'n dod ar y farchnad. Mae'r Llyfrgell yn ddyledus i'r Arglwydd Aberdâr am noddi'r digwyddiad llwyddiannus hwn.

EVENT AT THE HOUSE OF LORDS

On 5 March the Library were guests of Lord Aberdare at a special event held at the House of Lords attended by around 80 members of the House of Lords, House of Commons and friends with Welsh connections. This was an opportunity to highlight the Library's work, especially the Welsh Political Archive, and to encourage many of the guests to deposit their political papers with the Archive. The new Collection Fund leaflet was also distributed to encourage donations to the fund to enable the Library to purchase items which appear on the market. The Library is indebted to Lord Aberdare for sponsoring this successful event.

ARDDANGOSFA 'DINOETHI'R ARWISGO'

Fel rhan o bartneriaeth tair blynedd â Phrifysgol Aberystwyth i astudio gwleidyddiaeth radical yng Nghymru rhwng canol a diwedd yr ugeinfed ganrif (Manifesto 48) cynhaliwyd arddangosfa-fflach yn Ystafell Summers rhwng 1-5 Gorffennaf, a guradwyd gan Rhodri Evans. Roedd yr arddangosfa'n canolbwyntio ar y gwrthwynebiad i'r Arwisgiad gan arddangos nifer o eitemau a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

'DIVESTING THE INVESTITURE' EXHIBITION

As part of the three year partnership with Aberystwyth University to study radical politics in Wales in the mid to late twentieth century (Manifesto 48) a pop-up exhibition, curated by Rhodri Evans was held in the Summers Room between 1 and 5 July. The exhibition focused on opposition to the Investiture and showcased a number of items held at the National Library of Wales.

YMWELIAD GAN DAVID MELDING AC

Bu David Melding AC, Gweinidog yr Wrthblaid dros Dai, Treftadaeth, Diwylliant a'r Cyfryngau ar ymweliad â'r Llyfrgell ar Ddydd Gŵyl Dewi. Yn ystod ei ymweliad, galwodd heibio i'r Uned Adnau Cyfreithiol, Isadran Archifau a Llawysgrifau a'r Uned Gadwraeth a chafodd ei friffio ar y datblygiadau gyda'r Archif Ddarlledu Genedlaethol. Daeth hefyd a deunydd pwysig i'w ychwanegu at gasgliad y Llyfrgell: Archif Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad Cenedlaethol. Hon yw'r archif gyntaf o'u bath i gael ei throsglwyddo i'r Llyfrgell a bydd yn ffynhonnell gyfeiriadol bwysig i'r rhai sy'n astudio blynyddoedd cynnar datganoli.

A VISIT FROM DAVID MELDING AM

David Melding AM, the Shadow Minister for Housing, Heritage, Culture and Media visited the Library on St. David's Day. During his visit, he visited the Legal Deposit Unit, Archives and Manuscripts and Conservation Sections and was briefed on developments with the National Broadcast Archive. He also brought an important addition to the Library's collection: the Archive of the Welsh Conservative Party's Assembly Group. This is the first archive of this type to be transferred to the Library and will be an important reference source for those studying the early years of devolution.



ERTHYGL YNG NGHYLCHGRAWN HANES Y CEIDWADWYR

Yn rhifyn Hydref 2018 o'r *Conservative History Journal* roedd erthygl gan Rob Phillips yn trafod yr archifau a'r adnoddau eraill yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ymwneud â'r Blaid Geidwadol a gwleidyddion Ceidwadol.

ARTICLE IN THE CONSERVATIVE HISTORY JOURNAL

The Autumn 2018 edition of the *Conservative History Journal* featured an article by Rob Phillips on the archives and other resources held at the National Library of Wales related to the Conservative Party and Conservative politicians.

AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae'r Archif Wleidyddol Gymreig wedi bod yn trydar yn gyson yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar hyd y flwyddyn. Mae hyn wedi bod yn ffordd i ni ddangos derbynion newydd a thynnu sylw at gatalogio casgliadau.

Rydym hefyd wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i helpu i gasglu effemera ymgyrchoedd etholiadol a gwleidyddol yn ogystal â chymryd rhan i goffáu nifer o ddigwyddiadau fel canmlwyddiant yr Etholiad Cyffredinol cyntaf ers pasio Deddf Cynrychiolaeth y Bobl yn 1918 a roddodd yr hawl i ferched bleidleisio.

I ddathlu ugain mlynedd ers etholiadau cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru ysgrifennodd Rob Phillips flog ar ddatblygu Cofnodion Trafodion y Cynulliad a chyflwynodd fideo byr ar ddeunydd yng nghasgliadau'r Llyfrgell ar yr ymgyrch ar gyfer yr etholiadau cyntaf i'r Cynulliad yn 1999.

blog.llyfrgell.cymru/datganoli20/

I nodi canmlwyddiant arwyddo Cytundeb Heddwch Paris, neu Gytundeb Versailles fel y cyfeirir ato, ym Mehefin 1919, cyflwynodd Rob Phillips fideo byr arall yn dangos peth o'r deunydd yng nghasgliadau'r Llyfrgell gan gynnwys llythyrau, ffotograffau a memos a baratowyd ar gyfer y digwyddiad.

blog.llyfrgell.cymru/cytundeb-versailles/

@AWGymreig

ON OUR SOCIAL MEDIA

The Welsh Political Archive has maintained active Twitter feeds in both English and Welsh throughout the year. This has allowed us to showcase new acquisitions and highlight when collections have been catalogued.

We have also used social media to help collect election and political campaign ephemera as well as to take part in commemoration marking a number of events such as the centenary of the first General Election since the passing of the Representation of the People Act in 1918 which allowed women to vote.

To mark twenty years since the first elections to the National Assembly for Wales Rob Phillips wrote a blog on the development of the Assembly's Record of Proceedings and presented a short video on material in the Library's collections on the campaign for the first elections to the Assembly in 1999.

blog.library.wales/devolution20/

To mark the centenary of the signing of the Paris Peace Treaty, also known as the Treaty of Versailles in June 1919, Rob Phillips presented another short video showcasing some of the material in the Library's collections including letters, photographs and memos prepared for the peace conference.

blog.library.wales/treaty-of-versailles/

@WelshPolArch



YMWELIAD GAN SALI MALI

Bu Sali Mali, y cymeriad o'r llyfrau plant, ar ymweliad â'r Archif Wleidyddol Gymreig pan dreuliodd ddiwrnod yn y Llyfrgell ym Mehefin i ddathlu ei phen-blwydd yn hanner cant oed a chafwyd sylw i'w hymweliad ar y cyfryngau cymdeithasol.

VISIT FROM SALI MALI

The Welsh children's character Sali Mali paid a visit to the Welsh Political Archive when she spent a day at the Library in June to mark her fiftieth birthday. Pictures were shared on the Library's social media.

DARLITH AWR GINIO GAN ELIN JONES AC

Ar 8 Tachwedd 2018, rhoddodd Elin Jones, Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac AC dros Geredigion, ddarlith ar ferched yn ystod 20 mlynedd cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Traddodwyd y ddarlith yn erbyn cefndir yn dangos montage o'r holl ferched sydd wedi gwasanaethu fel Aelodau'r Cynulliad ers 1999 a thynnodd sylw at y rôl allweddol y mae nifer o ferched sy'n AC wedi'i chwarae ym mywyd y Cynulliad.

LUNCHTIME LECTURE BY ELIN JONES AM

On 8 November 2018, Elin Jones, Presiding Officer of the National Assembly for Wales and AM for Ceredigion, gave a lunchtime lecture on women in the first 20 years of the National Assembly for Wales. The lecture was given against a backdrop featuring a montage of all the women who have served as Assembly members since 1999 and highlighted the key role that many women AMs have played in the life of the Assembly.



ADNODDAU NEWYDD AR DUDALENNAU GWE'R ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG

I nodi canmlwyddiant ers diwedd y Rhyfel Mawr lansiwyd arddangosfa ar-lein newydd yn cynnwys deunydd am fywyd a gyrfa David Lloyd George. Yn yr arddangosfa ceir deunydd wedi'i ddigido yn cynnwys gohebiaeth, ffotograffau, dyddiaduron a chlipiau ffilm.

Mae'r arddangosfa'n seiliedig ar nifer o brif themâu yn cynnwys Cyllideb y Bobl, Pleidleisiau i Ferched a Chytundeb Versailles, gyda gwybodaeth benodol am y themâu wedi'i dewis o'r deunydd helaeth sydd wedi'i ddigido ar y wefan.

Datblygwyd yr arddangosfa gyda chefnogaeth Rhaglen Cymru'n Cofio 1914 - 1918, ac fe'i cefnogir gan fetaddata safonol IIIF sy'n fodd i rannu deunydd digidol sy'n adrodd hanes un o feibion amlycaf Cymru.

www.llyfrgell.cymru/davidlloydgeorge

Hefyd yn ystod y flwyddyn ail-lansiwyd yr arddangosfa ar-lein boblogaidd o gartwnau gwleidyddol. Roedd Illingworth yn gartwnydd o'r Barri a weithiai i'r *Daily Mail*. Roedd ei gartwnau'n adlewyrchu straeon newyddion gwych o ganol yr ugeinfed ganrif o'r Ail Ryfel Byd hyd at y Rhyfel Oer a'r Ras i'r Gofod. Nid yw'r arddangosfa wreiddiol wedi bod ar gael ers peth amser, ond cafodd ei hail-lansio ar gyfer digwyddiad gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Mawrth.

www.llyfrgell.cymru/illingworth/

NEW RESOURCES ON THE WELSH POLITICAL ARCHIVE WEB PAGES

To commemorate the centenary of the end of the First World War a new online exhibition detailing the life and career of David Lloyd George was launched. The exhibition features a range of digitised material including correspondence, photographs, diaries and film clips.


The exhibition is based around a number of key themes including The People's Budget, Votes for Women and the Treaty of Versailles, each supported by selected material drawn from the large amount of digitised content on the website.

The exhibition was developed with the support of the Wales Remembers 1914 - 1918 Programme, and is supported by IIIF standard metadata allowing digitised material telling the story of one of Wales' most famous sons to be widely shared.

www.library.wales/davidlloydgeorge

The popular on-line exhibition of Leslie Illingworth's political cartoons was also re-launched during the year. Illingworth was a cartoonist from Barry who worked for the *Daily Mail* and whose cartoons reflected the great news stories of the mid twentieth century from the Second World War to the Cold War and the Space Race. The original exhibition had been unavailable for some time, but was refreshed and re-launched in time for the National Library of Wales' event at the House of Lords in March.

www.library.wales/illingworth/



GWIR GOFNOD O GYFNOD: DIOGELU COFNODION A LLEISIAU MENYWOD YNG NGWLEIDYDDIAETH CYMRU; 1999-2019

Mae'n ystrydeb bellach i ymfalchïo yng ngorchest Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sicrhau nifer cyfartal o fenywod a dynion yn Aelodau Cynulliad yn 2023 – y ddeddfwrfa gyntaf yn y byd i ymgynhyrchu at hyn. Bu'n ystadegyn i'w ddathlu a'i drysori ac yn sicr yr oedd ac y mae o arwyddocâd rhyngwladol. Mae'n adlewyrchu newid agwedd a gobeithion etholiadol gwahanol mewn democratiaeth newydd. Ond pwyr oedd a phwy yw'r Aelodau Cynulliad benywaidd hyn sydd wedi gwasanaethu mor arloesol a sylweddol yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf?

Dyma'r cwestiwn sydd wrth wraidd prosiect newydd y bydd Archif Menywod Cymru Women's Archive Wales yn ymgymryd ag ef yn ystod y deunaw mis nesaf. Bu'r Archif yn ddigon ffodus i ennill grantiau gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a chan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal prosiect cynhwysfawr a fydd yn ceisio diogelu cofnodion a lleisiau'r menywod hyn ym maes gwleidyddiaeth. Eisoes gwnaeth ysgolheigion fel yr Athro Paul Chaney a'r Athro Laura McAllister o Brifysgol Caerdydd, ymchwil academiaidd i'r ffenomen hon gan drafod effeithiau cael mäs critigol o fenywod yn y Senedd a sut y mae hynny wedi arwain at bolisiau a chyfreithiau cyhoeddus newydd o safbwynt materion sy'n ymwneud â bywydau menywod, a chan ofyn a ydy'r newidiadau hyn wedi eu prif-frydio yng ngwaith y Cynulliad.

SETTING THE RECORD STRAIGHT – CAPTURING THE PAPERS AND VOICES OF WOMEN IN WELSH POLITICS; 1999-2019.

These days it is a cliché to take pride in the success of the National Assembly for Wales in securing an equal number of male and female Assembly Members in 2003 – the first legislature in the world to achieve this. It was a statistic to be celebrated and treasured, and certainly it was, and it still is of international significance. It reflects a change of attitude and different electoral aspirations in a new democracy. But who were, and who are these female Assembly Members who have served so innovatively and substantially during the last twenty years?

That is the question at the root of a new project to be undertaken by the Women's Archive Wales during the next eighteen months. The Archive was fortunate enough to gain grants from the Heritage Lottery Fund and the National Assembly for Wales to carry out a comprehensive project that will attempt to safeguard the records and voices of these women in politics. Already, scholars such as Professor Paul Caney and Professor Laura McAllister of Cardiff University, have conducted academic research into this phenomenon, discussing the impacts of a critical mass of women in the Senedd and how that has led to new public policies and laws from the viewpoint of matters that relate to the lives of women, and asking whether these changes have been mainstreamed in the Assembly's work.



Ond bydd y prosiect 'Gwir Gofnod o Gyfnod' yn mynd ar ddau drywydd cydlynol gwahanol i hyn. Un dasg fydd ceisio annog a chynorthwyo ACau benywaidd i gasglu ynghyd a diogelu eu papurau i'w rhoi ar adnau mewn archifau sirol neu genedlaethol yn ôl y gofyn. Ymddengys bod ACau gwrywaidd yn fwy parod na'r menywod i wneud hyn a'u bod nhw'n gwerthfawrogi arwyddocâd eu papurau fel ffynonellau hanesyddol at y dyfodol. O ystyried cyfraniadau sylweddol menywod at waith y Cynulliad Cenedlaethol ers 1999, oni chedwir papurau ACau benywaidd yn ogystal, caiff haneswyr y dyfodol ddarlun gwyrddoedig, unochrog o hanes y cyfnod hwn.

Bu'r Archif yn ymwybodol o'r sefyllfa hon ers sawl blwyddyn. Pan fu Val Feld, AC Dwyrain Abertawe a lladmerydd diflino cydraddoldeb, farw yn 2001, gofynnodd ei merched i Archif Menywod Cymru ofalu am ei harchifau gwleidyddol a phersonol. Yn y pen draw sicrhawyd cartref parhaol iddynt yn Archifdy Gorllewin Morgannwg. Yna, bu'r Archif yn ymbalfalu ar yr un trywydd ond heb fawr lwyddiant. Cysylltwyd â chyn-ACau yn arbennig i'w hatgoffa o werth eu papurau - yn llythyrau, dyddiaduron, ffotograffau a.y.b., ond roeddent naill ai'n rhy brysur i ymdopi â'r dasg, wedi symud i borfeydd newydd neu yn ansicr pa bapurau oedd yn werth eu cadw a'u diogelu a phwy fyddai â diddordeb ynddynt. Trwy'r prosiect hwn gobeithiwn, gyda chymorth archifyddion sirol a'r Archif Wleidyddol Gymreig, baratoi templed i helpu ACau i ddewis a dethol eu papurau i'w cadw. Dichon y byddai templed o'r fath yn ddefnyddiol i ACau gwrywaidd hefyd. Rydym yn hynod falch o'r gefnogaeth a gafwyd i weithredu'r strategaeth hon.

Yr ail dasg fydd recordio lleisiau'r trigain a mwy o ACau benywaidd sydd wedi gwasanaethu ers 1999, rhai ohonynt ers 1999, eraill wedi dal swyddi blaenllaw yn y Llywodraeth neu yn eu pleidiau. Nid ystadegau yw'r menywod hyn ond unigolion â'u hanesion personol unigryw - hanesion sydd wedi lliwio a llywio eu gyrfaoedd ym maes gwleidyddiaeth. Y nod yw creu archif gyflawn o'r lleisiau hyn, tra bod yr hanes yn dal i atseinio yn y cof. Bydd y cyfweiliadau yn agor drysau i'w cefndiroedd, yn holi am eu dewis o blaid, yr anawsterau a'r rhwystredigaethau a'u goddiweddodd ar y daith i'r Senedd ac yn ystod eu cyfnod yno, pa bolisiau a flaenoriaethwyd ganddynt a beth oedd eu prif lwyddiannau a'u hatgofion gorau, ac ati. Gobeithio hefyd y bydd modd dal ambell stori ddiddorol a doniol ac y bydd yr holi ac ateb yn onest, yn sensitif a gafaelgar. Yn y pen draw caiff yr archif holl-bwysig hon gartref yn Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru. At hyn bwriadwn recordio argraffiadau ambell aelod o Senedd leuenctid Cymru hefyd, lle mae hanner yr aelodau yn ferched, gan efelychu camp 2003 yn y Cynulliad ei hun. Gobeithio y bydd y cyfweiliadau a'r papurau a gesglir yn ysbrydoli mwy o fenywod a merched ifainc i fentro i faes gwleidyddiaeth.

Mae'n brosiect cyffrous ac uchelgeisiol ac y mae'n gyfrifoldeb ac yn ffrainc aruthrol i Archif Menywod Cymru ymgymryd ag ef. Byddwn yn ei lansio yn ystod gŵyl ddathlu pen-blwydd y Cynulliad yn ugain oed ddiwedd Medi eleni.

Y nod fydd sicrhau bod gennym, ar derfyn y prosiect, 'Wir Gofnod o Gyfnod 1999-2019'.

Catrin Stevens yw Cadeirydd Archif Menywod Cymru.

But the 'Setting the Record Straight' project will follow two co-ordinated courses of action that are different to this. One task will be to try to encourage and assist female AMs to collate and safeguard their papers to be placed on deposit in county or national archives as required. It appears that male AMs are more willing than the women to do this and that they appreciate the significance of their papers as historic sources for the future. Considering the substantial contribution of women to the work of the National Assembly since 1999, unless the papers of female AMs are also kept, the historians of the future will get a distorted and one-sided view of history during this period.

The Archive has been aware of this situation for some years. When Val Feld, AM for Swansea East and tireless campaigner for equality, passed away in 2001 her daughters asked the Women's Archive Wales to take charge of her personal and political archives. Ultimately, a permanent home was secured for them at the West Glamorgan Record Office. Then, the Archive fumbled along in a similar vein, but with little success. Former AMs in particular were contacted, to remind them of the value of their papers - letters, diaries, photographs etc., but they were either too busy to be able to cope with the task, or had moved on to pastures new or were uncertain what papers were worth keeping and safeguarding and who would be interested in them. By means of this project, and with the help of county archivists and the Welsh Political Archive, we hope to prepare a template to help AMs select their papers for retention. Such a template may possibly be useful to male AMs as well. We are very pleased with the support received to implement this strategy.

The second task will be to record the voices of the sixty and more female AMs who have served since 1999, some of them since 1999, others have held leading posts in the Government or in their parties. These women are not statistics but individuals with their own unique personal history - a history that has influenced and guided their careers in politics. The aim is to create a comprehensive archive of these voices, whilst the history still resonates in the memory. The interviews will open doors into their backgrounds, there will be questions about their choice of party, the difficulties and frustrations they met with on their journey to the Senedd and during their time there, what policies they prioritised and what were their main successes and best memories, etc. It is hoped also to capture a few interesting and humorous stories and that the questions and answers will be honest, sensitive and gripping. Ultimately, this vitally important archive will be housed in the National Library of Wales Screen and Sound Archive. We also intend to record the impressions of a few members of the Welsh Youth Parliament, where half the members are female, repeating the feat of the Assembly itself in 2003. It is hoped the interviews and papers collected will inspire more women, and young women, to venture into politics.

It is an exciting and ambitious project and it is a huge responsibility and privilege for the Women's Archive Wales to undertake it. It will be launched during the Assembly's 20th anniversary celebrations at the end of September this year.

The aim will be to ensure that, at the end of the project, we have 'Set the Record Straight 1999-2019'.

Catrin Stevens is the Chair of Women's Archive Wales.

DATGANOLI 20

Ugain mlynedd ar ôl sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, mae'n amlwg bod y rhan fwyaf ohonom yn eithaf naïf amdano: y gwleidyddion, y newyddiadurwyr a'r cyhoedd. Roedd y rhai ohonom oedd yn cefnogi'r prosiect yn credu mewn gwyrthiau. Buddsoddwyd cymaint yn yr hyn y gellid ei gyflawni'n gyflym nes collwyd golwg ar realiti gwleidyddol.

Buddsoddwyd cryn egni - anghofiwyd am yr arian - i sicrhau bod y sefydliad newydd yn addas i'w ddiben (cymal a or-ddefnyddiwyd ym mlynnyddoedd Blair).

Eto i gyd gwelwyd yn fuan nad oedd y model strwythur corfforaethol yn addas i'w ddiben o gwbl, a bod angen deddfwriaeth bellach i gael trefniant newydd. Wrth alw am gefnogaeth pleidleiswyr, gwnaed honiadau beiddgar gan y ddwy blaid a enillodd dri chwarter o seddau'r Cynulliad rhyngddynt yn yr etholiad cyntaf yn 1999 am yr hyn y gellid ei gyflawni. Trwy wneud hynny, parhaodd naratif optimistaidd yr ymgyrch IE yn y refferendwm ddwy flynedd yn flaenorol.

Yn sgil sefydlu'r sefydliad newydd rhoddodd y ddwy blaid, yn eu gwahanol ffyrdd, yr argraff fod cyfnod o ffyniant digyffelyb o flaen Cymru, gyda gwelliannau amlwg i ansawdd gwasanaethau cyhoeddus fel iechyd ac addysg ar y cyswll, yn ogystal â cham mawr ymlaen o ran cysylltiadau cludiant rhwng y gogledd a'r de.

DEVOLUTION 20

Twenty years after the National Assembly was set up, it's clear that most of us were pretty naïve about it: the politicians, the journalists and the public. Those of us who were supportive of the project believed in miracles. So much was invested in what could be achieved quickly that we lost sight of political reality.

An enormous amount of energy - forget the money - had been invested in ensuring that the new institution was fit for purpose (a phrase that became overused in the Blair years).

Yet it quickly turned out that the corporate structure model wasn't fit for purpose at all, and that further legislation was necessary to get a new arrangement that was. In bidding for the support of voters, the two parties that ended up with three quarters of the Assembly seats between them at the first election in 1999 made bold claims about what could be achieved. In doing so, they continued the optimistic narrative of the Yes campaign in the referendum two years before.

Both parties, in their different ways, gave the impression that, thanks to the establishment of the new institution, Wales was destined for an era of unprecedented prosperity, with demonstrable improvements to the quality of public services like health and education on their way, as well as a leap forward in transport connectivity between north and south.



Yn anochel arweiniodd addewidion fel hyn – a gafodd sylw mawr gan newyddiadurwyr yn cynnwys mi fy hun – at godi disgwyliadau nifer o bleidleiswyr: y lleiafrif oedd yn gadarn o blaid datganoli a'r rhai yn y canol oedd yn fwy amheus ond yn barod i gael eu perswadio.

Mae'n anodd peidio â chydymdeimlo â'r gwleidyddion a'r addewidion nad oedd modd eu gwredu: roedd Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei sefydlu, ac roedd yn rhaid hyrwyddo'r manteision y gallai eu sicrhau – neu beth oedd ei bwynt?

Eto i gyd drwy gysylltu'r canlyniadau a addawyd â sefydlu'r sefydliad newydd, gwahoddwyd pleidleiswyr – efallai'n ddiarwybod iddynt – i farnu gwerth bodolaeth y Cynulliad yn erbyn perfformiad y rhai oedd yn digwydd ei redeg.

Beth arall fydden nhw wedi gallu ei wneud? Methwyd i ddatganoli rhanbarthau Lloegr maes o law oherwydd ei bod yn ymddangos nad oedd llawer iawn yn cael ei gynnig i bleidleiswyr pan gynhaliwyd refferendwm yn y gogledd-ddwyrain – y rhanbarth oedd yn fwyaf tebygol o bleidleisio ie.

Roedd yn hawdd i wrthwynebwyr ddilorni'r Cynulliad arfaethedig fel siop siarad a gwastraff arian. Roedd dadl o'r fath wedi llwyddo yng Nghymru yn 1979, a bu bron i hynny ddigwydd eto yn 1997. Roedd y rhethreg a ailadroddwyd yn aml y byddai Cymru'n dod yn "bwerdy economaidd" ar ôl creu'r Cynulliad yn ddigon i gario'r dydd yn y refferendwm diweddaraf.

Yn 1999 yn ôl y manifestio Llafur byddai Cymru'n dod yn un o'r "rhanbarthau" mwyaf ffyniannus yn Ewrop yn hytrach nag un o'r tlotaf, fel yr oedd.

Eto i gyd, nid oedd yn ymddangos bod unrhyw strategaeth o bwys ar gyfer gwneud hyn. Yn ddiweddar, gyda gonestrwydd y mae newyddiadurwyr yn ei gymeradwyo a strategwyr gwleidyddol yn ei gasâu, dywedodd ein dirprwy weinidog dros yr economi presennol "am 20 mlynedd rydym wedi cymryd arnom ein bod yn gwybod beth ydym yn ei wneud gyda'r economi – a'r gwir yw nad ydym".

Ni wnaed unrhyw gyfaddefiad fel hyn yn ystod dau dymor cyntaf y Cynulliad, ond y safbwynt swyddogol oedd y byddai pethau gwych yn digwydd i economi Cymru. Anwybyddwyd problemau endemig oedd wedi bod yn amlwg iawn yn llenyddiaeth ymgyrch y refferendwm unwaith yr oedd y Cynulliad yn bodoli. Roedd fel pe byddai'n cael ei ystyried yn fater o gywilydd pe sonnid am broblemau o'r fath.

Yn wir, cyhuddwyd y rhai oedd yn meiddio awgrymu bod y sbin cadarnhaol yn rhoi darlun anghywir yn "dynnu Cymru i lawr". Roedd hyn yn syndod, o ystyried bod cais am gymorth Ewropeaidd ar y lefel uchaf wedi'i wneud ar sail bod yr economi'n wan yn y rhan fwyaf o'r wlad.

Such promises – faithfully ramped up by reporters including myself – inevitably raised the expectations of many voters: both the minority who were firmly in favour of devolution and those in the middle who were more doubtful but open to persuasion.

It's difficult not to have some sympathy with the politicians and their undeliverable promises: a National Assembly was being established, and the benefits it could bring had to be talked up – or what was the point of it?

Yet by linking the promised outcomes with the founding of the new institution, voters were – perhaps unconsciously – invited to judge the merit of having the Assembly at all against the performance of those who happened to be running it.

What else could they have done? Devolution to the English regions subsequently failed because so little of a tangible nature appeared to be on offer to voters when a referendum was held in the north east – thought to be the most likely region to vote yes.

It was easy for opponents to decry the proposed Assembly as a talking shop and a waste of money. Such an argument had triumphed in Wales in 1979, and nearly did so again in 1997. The oft repeated rhetoric that spoke of Wales becoming an "economic powerhouse" after the Assembly's creation was just about sufficient to get it over the line in that latest referendum.

The 1999 Labour manifesto talked of Wales becoming one of the most prosperous "regions" in Europe instead of one of the poorest, as it was.

Yet there didn't seem much of a strategy for making the transition. Recently, with a candour that journalists applaud and political strategists hate, our current deputy economy minister declared that "for 20 years we've pretended we know what we're doing on the economy – and the truth is we don't".

Admissions of this kind weren't made in the Assembly's first two terms, however, with the official line being that wonderful things were happening to the Welsh economy. Endemic problems that had figured heavily in referendum campaign literature were ignored once the Assembly was in existence. It was as if it would be considered a matter of shame if such problems were mentioned.

Indeed, those who dared to suggest that the positive spin gave an inaccurate picture were accused of "talking Wales down". Which was rather odd, given that an application for top-level EU aid had been made on the basis that the economy was weak in much of the country.

Yn ôl y safbwynt cyffredinol, bu i ddiwylliant y Cynulliad elwa a dioddef o fod yn gydsyniol gan mwyaf. Ron Davies a wnaeth y term “gwleidyddiaeth gynhwysol” yn boblogaidd a hynny’n rhannol yn gysylltiedig â’r ffaith fod elfen o gynrychiolaeth gyfrannol wedi’i chyflwyno am y tro cyntaf i etholiadau yng Nghymru.

Ond roedd hefyd yn cael ei ystyried fel pwynt gwerthu i bleidleiswyr, oedd yn dweud eu bod wedi cael llond bol ac wedi ymbellhau oddi wrth wleidyddiaeth San Steffan (er nad oeddent wedi ymbellhau i’r graddau ei fod yn eu hatal rhag pleidleisio mewn niferoedd uwch nag yn etholiadau’r Cynulliad).

Roedd y “wleidyddiaeth gydsyniol” yn fwyaf amlwg mewn pwyllgorau, lle nad oedd llawer i anghytuno yn ei gylch ar y cychwyn oherwydd bod y pynciau trafod yn canolbwyntio ar faterion mewnol – sefydlu fframweithiau polisi a phenderfynu pa gyrff allanol y byddent yn rhyngweithio â nhw.

Ond mewn gwirionedd, nid oedd prinder o’r math o wleidyddiaeth ymosodol yr oedd San Steffan yn enwog amdano. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf ohono’n digwydd o fewn pleidiau gwleidyddol yn hytrach na rhyngddynt.

Mewn llai na blwyddyn ar ôl sefydlu’r Cynulliad, roedd arweinwyr pob un o’r tair prif blaid wedi rhoi’r gorau i’w swyddi.

Rod Richards, arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, oedd y cyntaf i fynd, tri mis yn unig i mewn i’r tymor cyntaf. Roedd wedi trechu’r ymgeisydd yr oedd William Hague yn ei ffafrio, sef Nick Bourne mewn etholiad y cyfeiriwyd ati fel etholiad “llefarydd y blaid Gymreig” – fel pe bai aelodau’r blaid yn ethol swyddog y wasg yn hytrach nag arweinydd.

Roedd Mr Richards wedi gwneud enw iddo’i hun fel gwleidydd ymosodol pan oedd yn Weinidog yn y Swyddfa Gymreig, ac roedd â’i fryd ar barhau felly yn y Cynulliad.

Ond o ganlyniad i ddigwyddiad anffodus gyda merch ifanc a gyfarfu mewn bwyty pizza yn Llundain cafodd ei gyhuddo o GBH. Ymddiswyddodd yn syth fel arweinydd y blaid, gyda Mr Bourne yn ei olynu, oedd wedi gwneud tro pedol i droi yn gefnogwr brwd datganoli. Er iddo gael ei ryddhau o’r cyhuddiad, ni cheisiodd Mr Richards ddod yn ôl i’w swydd. Gwnaeth ei orau i godi cywilydd ar Mr Bourne, ond ildiodd ei sedd llai na dwy flynedd wedyn. Roedd cymaint o gasineb o fewn y blaid Geidwadol fel y byddai gwrthwynebiad sicr wedi bod pe na bai Mr Richards wedi bod yn awdur ei gwypm ei hun.

Yn y cyfamser roedd cynllwynio mawr o fewn y Blaid Lafur, gyda’r rhan fwyaf o’r aelodau’n cefnogi Rhodri Morgan yn hytrach nag Alun Michael mewn cystadleuaeth oedd yn amlwg wedi’i threfnu ymlaen llaw gan y Blaid Lafur Gymreig. Er gwaethaf y ffrynt unedig gerbron y cyhoedd, y tu ôl i’r llenni roedd aelodau o bwys eisiau cael gwared ar Mr Michael.

Conventional wisdom says that the Assembly’s culture both profited and suffered from being largely consensual. Ron Davies popularised the term “inclusive politics” which was partly linked to the fact that for the first time an element of proportional representation was introduced to elections in Wales.

But it was also seen as a selling point to voters, who were said to be alienated by the “yah-boo” politics of Westminster (though not so alienated as to prevent them turning out in higher numbers than in Assembly elections).

The “consensual politics” tag was exemplified most obviously in committees, where initially there wasn’t much to disagree about because the subjects for discussion were internally focussed – setting up policy frameworks and deciding which external bodies they would interact with.

But in reality, there was no shortage of the kind of combative politics Westminster was famous for. Most of it, however, occurred within political parties rather than between them.

Less than a year after the Assembly was established, the leaders of the three main parties had all relinquished their roles.

Rod Richards, leader of the Welsh Conservatives, was the first to go, a mere three months into the first term. He had defeated the Tory leader William Hague’s favoured candidate Nick Bourne in what was billed as a “Welsh party spokesman” election – as if the party members were electing a press officer rather than a leader.

Mr Richards had developed a certain notoriety as a combative operator when he was a Welsh Office Minister, and was all set to continue in that vein at the Assembly.

But an unfortunate encounter with a young woman he met in a London pizza restaurant culminated in his being charged with GBH. He immediately resigned as group leader, to be succeeded by Mr Bourne, who had become a born-again devolutionist. Despite being acquitted of GBH, Mr Richards made no come-back. He did what he could to embarrass Mr Bourne, but resigned his seat less than two years later. There was such mutual hostility within the Conservative group that there would surely have been a challenge to Mr Richards if he hadn’t been the author of his own downfall.

Meanwhile there was serious plotting going on within the Labour group, most of whose members had supported Rhodri Morgan against Alun Michael in Welsh Labour’s notoriously stitched-up leadership contest. Despite presenting a united front for public consumption, behind the scenes there were significant players who wanted Mr Michael out.

Nid oedd yn cael ei ystyried fel gwleidydd “Cymreig” a oedd wedi penderfynu’n wirfoddol i adael San Steffan ac ymuno â’r Cynulliad, ond fel rhywun oedd wedi’i berswadio i wneud hynny gan Tony Blair, a oedd eisiau Mr Michael fel rheolwr swyddfa ei gangen.

Pan ddaeth yn argyfwng ynglŷn ag arian UE, roedd yn amlwg bod dyddiau Mr Michael bron drosodd. Yn ddiweddar datgelwyd gan yr Arglwydd [Mike] German, oedd yn arwain y blaid Ryddfrydol ar y pryd, bod cyfarfodydd wedi’u cynnal y tu ôl i gefn Mr Michael tra roedd dal yn Brif Ysgrifennydd, rhwng cynrychiolwyr y blaid Lafur a’r Democratiaid Rhyddfrydol ynghylch sefydlu clymblaid dan arweiniad Mr Morgan. Ar ôl i Mr Michael ddychwelyd i San Steffan, dyna’n union a ddigwyddodd yn fuan iawn.

Roedd anghydfod pellach o fewn Plaid Cymru pan benderfynodd prif aelodau’r blaid y dylai Dafydd Wigley ildio’i swydd fel llywydd y blaid er ei fod wedi’i harwain at y canlyniad gorau erioed mewn etholiad cyffredinol, gan ennill 17 o seddau yn y Cynulliad.

Roedd y cynllwynwyr o’r farn nad oedd wedi gallu addasu o arwain plaid fach yn San Steffan i fod yn arweinydd yr wrthblaid yn y Cynulliad.

Cafodd Mr Wigley, y dywedwyd wrtho’n garedig fod angen iddo leihau ei ymrwymadau gwaith ar ôl problemau â’r galon, wybod am y tro cyntaf eu bod yn cynllwynio yn ei erbyn pan ddarllenodd am yr hanes yn y *Wales on Sunday*. Gyda chymaint o gynllunio Maciafelaidd yn digwydd, nid oedd y Cynulliad mewn gwirionedd yn cydymffurfio â’r “math newydd o wleidyddiaeth” a addawyd. Roedd yn naïf meddwl y gallai wneud hynny.

Beth bynnag fo ein barn am lwyddiant a methiant y cynlluniau polisi a weithredwyd dros y blynyddoedd, neu am berfformiad economaidd neu wasanaeth cyhoeddus, mae’r Cynulliad – a fydd yn Senedd yn swyddogol cyn hir – yn gorff cenedlaethol a fydd yn agored i’w farnu.

Ar ôl canrifoedd o fod yn anweladwy’n wleidyddol fel gwlad heb ganolbwynt, mae cyfle bellach gan Gymru i greu ei llwyddiant ei hun a gwneud ei chamgymeriadau ei hun.

Nid yw ugain mlynedd yn amser hir i gorff deddfwriaethol. Mewn cyfnod pan fo’n ymddangos bod newid gwleidyddol yn cyflymu, yn sicr bydd y corff a gymeradwywyd gyda mwyafrif mor fach yn 1997 yn hollbwysig i ddyfodol y genedl.

Martin Shipton yw prif ohebydd y *Western Mail* ac awdur *Poor Man’s Parliament: Ten Years of the Welsh Assembly*, a gyhoeddwyd gan Seren.

He wasn’t seen as a “Welsh” politician who’d decided voluntarily to leave Westminster and join the Assembly, but as someone who’d been cajoled into doing so by Tony Blair, who wanted Mr Michael as his branch office manager.

When a crisis blew up over EU funding, it was clear that Mr Michael’s days were numbered. It was recently revealed by Lord [Mike] German, who led the Liberal Democrat group at the time, that there were meetings held behind Mr Michael’s back while he was still in office as First Secretary between Labour and Lib Dem representatives about setting up a coalition led by Mr Morgan. After Mr Michael had been safely packed back to Westminster, that quickly happened, of course.

Further insurgency was taking place within Plaid Cymru, where senior party figures decided that Dafydd Wigley should be eased out of the party presidency despite leading the party to its best ever showing in a national election, winning an unsurpassed 17 Assembly seats.

The plotters had formed the view that he hadn’t made a good transition from leading a small group at Westminster to being opposition leader at the Assembly.

The first Mr Wigley, who was told gently that he needed to cut down on his work commitments after a heart scare, knew of a plot was when he read about it in *Wales on Sunday*. With such Machiavellian antics going on, the Assembly didn’t really conform to the “new kind of politics” that had been promised. It was naïve to think that it would.

Whatever views we have about the success and failure of policy initiatives that have been implemented over the years, or of public service or economic performance, we have in the Assembly – soon officially to become a Parliament – a body that can be our national lightning rod.

After so many centuries of political invisibility as a country without a locus, Wales now has the opportunity to create its own successes and make its own mistakes.

Twenty years isn’t long in the life of a legislature. At a time when political change appears to be accelerating, the body whose existence was endorsed so narrowly in 1997 will undoubtedly be crucial to the nation’s future.

Martin Shipton is chief reporter of the *Western Mail* and the author of *Poor Man’s Parliament: Ten Years of the Welsh Assembly*, published by Seren.

NEWYDDION O LYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU NEWS FROM THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

AGOR YR ARCHIF: CREU ARCHIF DDARLLEDU GENEDLAETHOL I GYMRU

Mae bwriad gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru i greu Archif Ddarlledu Genedlaethol i Gymru - y cyntaf o'i bath yn y DU - a bydd hyn yn cael ei wireddu ar ôl cael grant o bron i £5 miliwn (£4,751,000) gan y Loteri Genedlaethol a £1 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Bydd tua 240,000 o oriau o raglenni radio a theledu BBC, yn cofnodi bron i 100 mlynedd o ddarlledu ac yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau eiconig o hanes a diwylliant Cymru yn yr 20fed ganrif, yn cael eu diogelu ac ar gael i genedlaethau'r dyfodol.

Bydd y deunyddiau ar gael i'r cyhoedd mewn pedwar lleoliad drwy'r wlad a bydd cyfres o ganolfannau clip symudol yn sicrhau bod cymunedau gwledig a mwy ynysig yn dal i allu cyrchu'r archif, tra bydd 1,500 o glipiau archif gan BBC Wales ar gael i unrhyw un sy'n dymuno eu gweld ar-lein gartref neu gan athrawon mewn ysgolion.

Mae £2 filiwn ychwanegol o Gronfeydd Preifat y Llyfrgell a gwerth £2.5 miliwn o gynnwys digidol a chymorth gan y BBC hefyd wedi cyfrannu at y prosiect.

OPENING THE ARCHIVE: CREATING A NATIONAL BROADCAST ARCHIVE FOR WALES

The National Library of Wales' plans to create a ground-breaking National Broadcast Archive for Wales – the first of its kind in the UK – are set to become a reality following a National Lottery grant of nearly £5 million (£4,751,000) and £1m in funding from the Welsh Government.

Around 240,000 hours of BBC radio and television footage from Wales, charting almost 100 years of broadcasting and including many iconic moments from 20th century Welsh history and culture, will be made accessible and kept safe for future generations.

The materials will be made accessible to the public at four locations across the country and a series of mobile clip centres will ensure more isolated and rural communities can still access the archive, while 1,500 BBC Wales archive clips of material will be made available for anyone to view online at home or by teachers in school.

Additional funding of £2 million from the Library's Private Funds and £2.5 million of digital content and in-kind support from the BBC has also contributed to the project.



ORIEL LLYFRGELL GLAN-YR-AFON

Ers mis Rhagfyr 2018 mae modd gweld arddangosfa o rai o gasgliadau'r Llyfrgell mewn oriel yn Hwlfordd sydd yn rhan o bartneriaeth cyffrous rhwng y Llyfrgell a Chyngor Sir Penfro. Mae datblygiad Llyfrgell Glan-yr-afon hefyd yn cynnwys caffi, hwb cynghori, llyfrgell gyhoeddus a chanolfan gwybodaeth i dwristiaid. Bydd y Llyfrgell yn cyflwyno rhaglen thematig o arddangosfeydd sy'n newid bob 6 mis ac arddangosfa barhaol am hanes, diwylliant a chwedlau Sir Benfro yn yr oriel.

THE RIVERSIDE LIBRARY GALLERY

Exhibitions of some of the Library's collections can now be seen in a gallery in Haverfordwest as part of an exciting new partnership between the Library and Pembrokeshire County Council. The gallery is part of The Riverside Library development that includes a café, an advice hub, a public library and a tourist information centre. The National Library of Wales has a programme of thematic six month exhibitions, and a permanent exhibition on the history, culture and legends of Pembrokeshire at the gallery.

PENODI PEDR AP LLWYD YN BRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD

Ym mis Rhagfyr cyhoeddodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr mai Pedr ap Llwyd fyddai'n olynu Linda Tomos fel Prif Weithredwr a Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Roedd Pedr yn Gyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd a bu'n Ysgrifennydd a Phennaeth Llywodraethiant y sefydliad cyn hynny.

PEDR AP LLWYD APPOINTED CHIEF EXECUTIVE AND LIBRARIAN

In December, the Board of Trustees announced the appointment of Pedr ap Llwyd who will succeed Linda Tomos as Chief Executive and Librarian of the National Library of Wales. Pedr was previously the Director of Collections and Public Services and Deputy Chief Executive and Librarian at the Library, and was the Secretary and Head of Governance prior to that.



CYHOEDDIAD PRIN AM FARWOLAETH CAPTEN COOK

Mae'r Llyfrgell wedi prynu llyfr prin iawn gan Gymro oedd yn bresennol pan laddwyd yr arloeswr Capten James Cook. Hwylodd David Samwell gyda Capten Cook fel 'surgeon's first mate' ar y Resolution yn 1776. Brodor o Sir Ddinbych oedd Samwell a anwyd yn 1751 ac a oedd â diddordeb mawr mewn llenyddiaeth Gymraeg. Roedd yn llygad-dyst pan laddwyd Cook mewn ysgarmes gyda rhai o'r brodorion yn ynys Hawaii yn 1779. Ysgrifennodd yr hanes yn llawn a'i gyhoeddi yn 1786 ar ôl iddo ddychwelyd i Loegr, mewn cyfrol da y teitl *A narrative of the death of Captain James Cook*. Yn yr un flwyddyn cyhoeddwyd cyfieithiad o'r gwaith i'r Ffrangeg gyda'r teitl *Détails nouveaux et circonstanciés sur la mort du Capitaine Cook*. Mae hwn yn gyhoeddiad prin iawn gyda dim ond tri chopi yn hysbys mewn llyfrgelloedd eraill trwy'r byd i gyd, felly pan ddaeth copi ar werth, achubwyd ar y cyfle i ychwanegu'r eitem bwysig hon at gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

A RARE PUBLICATION ON THE DEATH OF CAPTAIN COOK

The Library has bought a very rare book by a Welshman who was present when the explorer Captain James Cook was killed. David Samwell sailed with Captain Cook as 'surgeon's first mate' on the Resolution in 1776. He was a native of Denbighshire, born in 1751, and had a great interest in Welsh literature. He witnessed Cook's death in a skirmish with natives in Hawaii in 1779. He wrote a full account of the event, and after his return to England published it in 1786 under the title *A narrative of the death of Captain James Cook*. The Library already has two copies of this book. In the same year, a French translation was published with the title *Détails nouveaux et circonstanciés sur la mort du Capitaine Cook*. This is particularly rare, with only three known copies in other libraries throughout the world. When a copy came up for sale, we took the opportunity to add this important item to the collections of the National Library of Wales.



DIGWYDDIADAU UPCOMING EVENTS

Dydd Gwener 1 Tachwedd
Friday 1 November, 5:30pm

DARLITH FLYNYDDOL YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG POLITICAL ARCHIVE ANNUAL LECTURE: TWENTY YEARS OF DEVOLUTION – A POLITICAL MEMOIR

JANE HUTT AM/AC

Adolygiad personol a gwleidyddol o 20 mlynedd o ddatganoli gan Jane Hutt, fydd yn myfyrio ar ei blwyddyn ar y meinciau cefn a'r cyfleoedd a ddaeth o hynny i siarad am yr achosion cymdeithasol a gwleidyddol oedd wedi ei harwain at wleidyddiaeth ffurfiol bron i 40 mlynedd yn ôl. Golwg ddifyr ar sut y gellir troi egwyddorion a phrofiad gwleidyddol yn ewylllys gwleidyddol i gyflawni er lles Cymru a'r byd.

A personal and political review of the past 20 years of devolution by Jane Hutt, reflecting on her year on the back benches and the opportunities that brought to speak out on the social and political causes that drove her into formal politics nearly 40 years ago. A fascinating look at how political principles and experience can be turned into political will to deliver results for the good of Wales and the world.

**MYNEDIAD AM
DDIM TRWY
DOCYN**
FREE ADMISSION
BY TICKET

E



Dydd Mawrth 8 Hydref, 1:00pm
Tuesday 8 October, 1:00pm

DERBYNION NEWYDD NEW ACQUISITIONS

Cyflwyniad i dderbynion newydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd arbennigwyr y Llyfrgell yn sôn am wahanol eitemau a dderbyniwyd i'n casgliadau gan esbonio eu pwysigrwydd a pham y maent yn cael eu cadw ar gyfer y genedl.

Rhan o'r ymgyrch Wythnos Llyfrgelloedd.

WythnosLlyfrgelloedd

A presentation of the National Library of Wales' new accessions. The Library's specialist staff will discuss various items which have been accessioned, explaining their importance and why they are being safeguarded for the nation.

Part of the Libraries Week campaign.

LibrariesWeek



**MYNEDIAD AM
DDIM TRWY
DOCYN**
FREE ADMISSION
BY TICKET

C

T

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU

t: 01970 632 800
f: 01970 615 709
post@llyfrgell.cymru

Oriau Agor Cyffredinol /
General Opening Hours

Dydd Llun – Dydd Gwener/
Monday – Friday
9:00am – 6:00pm
Dydd Sadwrn/Saturday
9:30am – 5:00pm

YR ARCHIF WLEIDYDDOL GYMREIG THE WELSH POLITICAL ARCHIVE

www.llyfrgell.cymru/archifwleidyddolgymreig

www.library.wales/welshpoliticalarchive

@AWGymreig

@WelshPolArch

The Welsh Political Archive Newsletter is produced annually to highlight new collections and the work of the archive and is circulated to journalists, historians, academics, politicians and others who are interested in the history and politics of Wales. If you would like to receive a copy, please let us know using the contact details above.

Back issues of the newsletter are available on the Welsh Political Archive pages of the National Library of Wales website.

ISSN 1365-9170

Cyhoeddir Cylchlythyr yr Archif Wleidyddol Gymreig unwaith y flwyddyn i dynnu sylw at gasgliadau newydd a gwaith yr archif ac mae'n cael ei ddosbarthu i newyddiadurwyr, haneswyr, academyddion, gwleidyddion ac eraill sydd â diddordeb yn hanes a gwleidyddiaeth Cymru. Os hoffech dderbyn copi, rhowch wybod i ni drwy'r manylion cyswllt uchod.

Mae ôl-rifynnau o'r cylchlythyr ar gael ar dudalennau'r Archif Wleidyddol Gymreig ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

ISSN 1365-9170



LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Archif Wleidyddol Gymraeg
Welsh Political Archive

